**Anna Brychan AS/MS**
**Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg**
**Cabinet Minister for Education and the Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**9 Gorffennaf 2026**

**Annwyl Bennaeth**

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda a bod eich staff yn edrych ymlaen at wyliau haf haeddiannol. Diolch am eich gwaith caled parhaus yn cefnogi dysgwyr trwy gydol y flwyddyn academaidd hon.

Roedd yn galonogol gweld gwelliannau yn y datganiad ystadegol diweddaraf yn seiliedig ar ddata asesiadau personol, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y proffesiwn yn ystod cyfnod heriol. Mae codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd yn parhau i fod yn ganolog i'n huchelgais gyffredin. Fel y gwyddoch yn well na neb, mae'r sgiliau hyn yn sail i lwyddiant ar draws y cwricwlwm ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Fel yr addawyd, rwy'n ysgrifennu i amlinellu'r camau nesaf yn ein dull cydweithredol o ymdrin â'n **Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol** newydd ("y Cynllun") ac i ofyn am eich cefnogaeth i fwrw ymlaen â hyn o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2026/27.

**Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi a bydd yn canolbwyntio ar y canlynol:**

**Uchelgais a rennir a dangosyddion cenedlaethol**

Byddwn yn nodi uchelgais genedlaethol glir: gwelliant cyson mewn deilliannau llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr, gyda mwy o ddysgwyr yn gwneud cynnydd sicr, y bwlch anghydraddoldeb o ran cyrhaeddiad a chynnydd yn culhau dros amser, mwy o ddysgwyr yn cyflawni cymwysterau perthnasol, a mwy o ddysgwyr yn gadael addysg uwchradd yn siaradwyr Cymraeg annibynnol.

Yn genedlaethol, byddwn yn cyhoeddi cyfres fach o ddangosyddion llythrennedd a rhifedd i'n helpu ni i ddeall perfformiad y system a ffocysu cymorth. Bydd y rhain yn seiliedig ar ddata cenedlaethol yn unig ac ni fyddant yn nodi awdurdodau lleol nac ysgolion yn unigol. Dylent

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Anna.Brychan@llyw.cymru
Correspondence.Anna.Brychan@gov.wales
Gohebiaeth.Cefin.Campbell@llyw.cymru
Correspondence.Cefin.Campbell@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lywio blaenoriaethau lleol, yn hytrach na thynnu sylw oddi wrthynt. Ni fwriedir iddynt farnu ysgolion, creu tablau cynghrair nac ysgogi ymddygiadau perfformiad cul - dulliau y mae rhaid inni eu hosgoi os ydym am gadw ffocws ar welliant gwirioneddol. Mae ein cynigion cychwynnol wedi'u nodi yn yr Atodiad, ond byddant yn ffurfio dim ond un rhan o ystod ehangach o wybodaeth a ddefnyddir i ddeall perfformiad y system yn genedlaethol.

**Ymdrech ar y cyd**

Mae'r Cynllun yn cynrychioli dull system gyfan, cydweithredol o fynd i'r afael â gwelliant, gan adeiladu ar arbenigedd ymarferwyr a chryfderau sydd eisoes yn bodoli. Nid yw'n ymwneud ag ychwanegu pwysau, llwyth gwaith na biwrocratiaeth; mae'n canolbwyntio yn hytrach ar y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddysgwyr.

Er bod llawer o arferion effeithiol ledled Cymru, mae lleihau amrywiad yn parhau i fod yn un o'r prif heriau. Bydd cydweithredu ar bob lefel yn hanfodol er mwyn datblygu disgwyliadau cyson, rhannu arbenigedd a chryfhau gallu ar draws y system.

**Y Cwricwlwm ac Asesu**

Rwyf wedi ymrwymo i'r Cwricwlwm i Gymru o hyd, ac yn cefnogi ysgolion i wireddu ei lawn botensial. Bydd y Cynllun yn nodi'r cymorth clir y byddwn yn ei roi ar waith i ysgolion o ran llythrennedd a rhifedd. Bydd y pecyn cydlynol hwn o gymorth a disgwyliadau yn cynnwys:

- drafftio manylion ychwanegol o flwyddyn i flwyddyn i roi eglurder ar yr hyn y mae angen i blant ei ddysgu a phryd, gan gefnogi dealltwriaeth o gynnydd mewn llythrennedd a rhifedd (caiff y rhain eu cyhoeddi yn gynnar yn yr hydref ar gyfer ymgynghoriad, gyda'r bwriad o symleiddio fframwaith y Cwricwlwm i Gymru)
- cefnogaeth i athrawon gyda chynllunio cwricwlwm, dysgu, addysgu ac asesu
- dulliau o dargedu cymorth i ddysgwyr sydd ei angen
- canllawiau cliriach ar Ffoneg Synthetig Systematig a sgiliau darllen sylfaenol - byddwn hefyd yn adolygu'r arferion a'r adnoddau presennol
- cefnogaeth i wella'r pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd.

Cam nesaf hanfodol i'r system yw cryfhau'r ddealltwriaeth a rennir o gynnydd dysgwyr rhwng 3 a 16 oed, gan gefnogi mwy o barhad mewn dysgu a nodi'r angen yn gynharach. Mae hyn yn cynnwys:

- datblygu darlun cliriach o fannau cychwyn dysgwyr pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol
- athrawon yn asesu cynnydd yn barhaus, gan gynnwys nodi'n gynnar yr angen a chymorth priodol i ddysgwyr ag ADY
- dull mwy cyson o bontio rhwng ysgolion, yn enwedig o'r cynradd i'r uwchradd (gan gynnwys rhannu data a gwybodaeth)
- sicrhau llwybr clir i'r Hawl i Ddysgu 14–16.

Er bod y Cynllun yn cynrychioli ein camau nesaf gyda hyn, byddwn yn parhau i fireinio'r gwaith hwn, gan weithio gyda'r sector, yn ystod y flwyddyn academaidd sydd i ddod. Bydd y cynllun yn mabwysiadu dull gweithredu 0 i 16, gan gydnabod bod datblygiad llythrennedd a rhifedd plant

yn dechrau cyn yr ysgol, ac yn cael ei gefnogi gan rieni, gofalwyr, ymarferwyr, ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar, ynghyd â gwasanaethau ehangach.

Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod ni eisoes wedi dechrau gwaith i gefnogi llythrennedd a rhifedd trwy'r grantiau cwricwlwm a'r dysgu proffesiynol parhaus sydd ar gael trwy Dysgu. Yn benodol, dylech fod yn ymwybodol o waith CAL:ON, sy'n allweddol i gefnogi llythrennedd ac a fydd yn chwarae rhan bwysig wrth symud ymlaen.

**Disgwyliadau o fis Medi 2026 ymlaen**

O ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, gofynnaf i bob ysgol, gyda chefnogaeth ei hawdurdod lleol, ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gweithio ar y cyd ag ysgolion eraill a'ch awdurdod lleol er mwyn cryfhau hunanwerthuso ac addysgu, meithrin dealltwriaeth a rennir o safonau a chefnogi pontio, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd
- Sicrhau bod targedau llythrennedd a rhifedd clir ac uchelgeisiol ar waith ar gyfer pob dysgwr sy'n canolbwyntio ar eu camau nesaf ac yn seiliedig ar fan cychwyn, cynnydd ac anghenion
- Gosod targedau gwella ysgol penodol ac ymestynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd trwy eich prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant presennol.

Mae'r elfennau hyn eisoes ar waith yn y mwyafrif o ysgolion. Y flaenoriaeth nawr yw cryfhau eu cysondeb, eu heglurder a'u heffaith, gyda ffocws parhaus ar wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu. Bydd angen diwylliant agored, llawn ymddiriedaeth lle mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu rhannu i gefnogi cydweithrediad effeithiol a mwy o gysondeb. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys rhannu blaenoriaethau gwella gyda phartneriaid awdurdodau lleol.

Bydd awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig wrth ddod â'r wybodaeth hon ynghyd i roi adlewyrchiad cytbwys o gynnydd a blaenoriaethau ar draws eu hysgolion. Bydd hyn yn llywio eu gwaith ymgysylltu â Thîm Gwella Addysg Llywodraeth Cymru, gan sicrhau llwybr clir rhwng gweithgarwch gwella lleol a'r ddealltwriaeth genedlaethol a rennir.

**Dangosydd Blwyddyn 6 newydd o fewn yr Asesiadau Personol**

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2026–27, bydd dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran Blwyddyn 6 newydd ar gyfer darllen a rhifedd yn cael ei gyflwyno drwy asesiadau personol fel pwynt cyfeirio cenedlaethol a rennir, ochr yn ochr â'r adroddiadau cynnydd dysgwyr presennol. Bydd yn cael ei ddarparu i ysgolion i ddechrau fel adroddiad grŵp i'w ddefnyddio gan ymarferwyr i gefnogi addysgu, dysgu a phontio, ac ni fydd yn cael ei rannu â dysgwyr na rhieni. Rydym yn bwriadu datblygu adroddiad dysgwr unigol i'w ddefnyddio yn y dyfodol ac, ymhen amser, rydym yn bwriadu archwilio dangosyddion tebyg ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill, mewn partneriaeth â'r sector.

Ni ddylid cyhoeddi'r wybodaeth lefel-ysgol hon ac ni chaiff ei defnyddio i gymharu ysgolion nac i ffurfio barn am berfformiad. Diben yr wybodaeth yw cefnogi dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr

a llywio gwelliant. Mae asesiadau personol yn parhau i fod yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig. Mae llawer o ysgolion eisoes yn rhannu'r wybodaeth hon gydag awdurdodau lleol ac ysgolion partner, ac rwy'n annog ysgolion i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol am asesiadau yn y ffordd hon i gefnogi cynnydd dysgwyr, hunanwerthuso a gwelliant cydweithredol.

**Edrych i'r dyfodol**

Dyma gam cyntaf dull gweithredu tymor hwy. Bydd y Cynllun yn darparu eglurder, cefnogaeth a dilyniant pellach yn ystod y flwyddyn academaidd, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r proffesiwn a'r partneriaid i fireinio a chryfhau trefniadau gweithredu, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar lwyth gwaith.

Mae hon yn ymdrech genedlaethol a rennir i wella deilliannau i bob dysgwr. Rwy'n ddiolchgar am eich arweinyddiaeth a'ch ymrwymiad parhaus i'r gwaith hwn.

Yn gywir



**Anna Brychan AS/MS**

Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

Cabinet Minister for Education and the Welsh Language

## Atodiad

### Uchelgais Genedlaethol

Erbyn diwedd tymor y Senedd, dylai Cymru weld gwelliant cyson mewn deilliannau llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr, gyda mwy yn gwneud cynnydd sicr a'r bwlch anghydraddoldeb o ran cyrhaeddiad a chynnydd yn culhau dros amser.

Dylai hefyd gynnwys mwy o ddysgwyr yn cyflawni cymwysterau perthnasol a chynnydd parhaus yng nghyfran y dysgwyr sy'n gadael addysg uwchradd fel siaradwyr Cymraeg annibynnol.

### Dangosyddion Cenedlaethol Arfaethedig

Gallai dangosyddion cenedlaethol (gyda dadansoddiadau perthnasol ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr) gynnwys:

- cynyddu cyfran y dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n bodloni'r dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran y cytunwyd arno ar gyfer Darllen Cymraeg a Saesneg (asesiadau personol)*
- cynyddu cyfran y dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n bodloni'r dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran y cytunwyd arno ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol) (asesiadau personol)*
- lleihau cyfran y dysgwyr Blwyddyn 3/6/9 y mae eu sgiliau mewn asesiadau personol darllen a rhifedd yn sylweddol is na'r disgwyliadau (y rhai sydd wedi sgorio'n is na sgôr safonedig ar sail oedran benodol). Mae'r dangosydd hwn yn amodol ar ddichonoldeb ystadegol
- cynyddu cyfrannau'r garfan Blwyddyn 11 sy'n cyflawni TGAU Mathemateg / Cymraeg / Saesneg gydag A*-A, A*-C ac A*-G (mae'r cyfuniad manwl o gymwysterau i'w gadarnhau)
- Targed sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (i'w gytuno)
- Targed presenoldeb cenedlaethol (i'w gytuno).

* Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector i archwilio dangosydd sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer grwpiau blwyddyn eraill fel y bo'n briodol.

**Sylwer:** byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu dangosydd parodrwydd i ddysgu neu linell sylfaen sy'n gyson yn genedlaethol i helpu'r system i ddeall mannau cychwyn dysgwyr a barnu cynnydd yn fwy teg dros amser. Ymhen amser, gallai hyn helpu i lywio ein dangosyddion cenedlaethol uchod yn well.